**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd yn Neuadd Rhoshirwaun ar nos Lun, Tachwedd y 13eg am 7.30 y.h.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Dewi Evans (yn gweithredu fel Clerc dros dro), Mari Evans, Wil Evans, Gwenllian Haf, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Jaci Jones, Nesta Roberts, Dafydd Williams, Wenda Williams.

**Yn y Gadair:** Y Cynghorydd Robert Williams.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Tim Rosa a Gareth Williams (Y Cyngor Sir).

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd** Diolchwyd i'r Cynghorydd Wenda Williams am drefnu fod torch yn cael ei gosod yn y pentref erbyn Sul y Cofio.

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Hydref 9fed, 2023**. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion**

**i) Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau**

a) Penderfynwyd gyrru eto at Gyngor Gwynedd ynghylch y bin sbwriel sydd wedi ei osod o flaen yr hysbysfwrdd wrth y Gegin Fawr i argymell ei roi mewn man mwy addas.

b) Trafodwyd yr ateb a gafwyd ynghylch anawsterau cleifion wrth ffonio Meddygfa Rhydbach, a datganwyd siom mai yn Saesneg yn unig y'i cafwyd.

c) Nodwyd fod y twll yn y lôn gyferbyn â Phen Cae wedi ei drwsio.

ch) Adroddwyd fod gweithwyr y Cyngor Sir wedi cael golwg ar sefyllfa'r llwybr cyhoeddus heibio i Gefn Coch am y pentref, a'i bod yn fwriad gwneud peth gwaith arno.

**ii) Materion yr Eglwys Newydd**

Cynhaliwyd cyfarfod yng Nghanolfan Deunant ar Hydref 25 i ailsefydlu Cyfeillion Eglwys Newydd. Er mai siomedig oedd nifer y mynychwyr, dechreuwyd cynllunio cyfres o ddigwyddiadau i godi arian er mwyn sicrhau y gellir manteisio i'r eithaf ar y gwaith adnewyddu a fydd yn digwydd.

Cyfarfu cynrychiolydd o gwmni Gallagher, Bangor ag aelodau o'r Cyngor yn Eglwys Newydd ar Hydref 28 i fwrw golwg ar y safle a thrafod y gwaith. Y cam nesaf fyddai cysylltu â chwmnïau sgaffaldiau i gael amcanbrisiau.

**iii) Y Cae chwarae**

Rhoddodd y Cynghorydd Gwenllian Haf arolwg o'r hyn ar droed a'r gwaith pellach sydd angen ei wneud yn y Cae Chwarae. Mae grant wedi ei dderbyn ar gyfer peth o'r gwaith, a phenderfynwyd bwrw ymlaen gyda hwnnw, a gwneud cais pellach am arian yn y flwyddyn newydd.

**iv) Swydd y clerc**

Adroddwyd fod rhai aelodau o'r Cyngor wedi cael sgwrs ag ymgeisydd ar gyfer swydd wag y Clerc, ond nad oedd yn fodlon ymgymryd â hi oni bai fod yr oriau gwaith yn cael eu cynyddu. Penderfynodd y Cyngor fod yn rhaid cadw at yr oriau'r gwaith a gafodd eu nodi pan hysbysebwyd y swydd, ac na ellid derbyn telerau gwahanol.

**5) <u>Gohebiaethau</u>**

Rhannwyd gohebiaeth ddiweddar ynghylch rhimyn gwellt o flaen Bodarfor. Cytunwyd nad oedd a wnelo'r Cyngor Cymuned ddim ag o, ac mai gyda Chyngor Gwynedd y dylid gohebu.

Darllenwyd gohebiaeth a dderbyniwyd ynghylch llwybrau swyddogol nad oedd modd cerdded ar hyd-ddynt. Roedd y gohebwr bellach wedi derbyn e-bost gan Gyngor Gwynedd yn nodi nad oedd y gyllideb yn ddigonol i ofalu am holl lwybrau'r Sir.

Derbyniwyd ceisiadau am gymorth ariannol gan Theatr Bara Caws a Radio Gwynedd, ond gan mai arfer y Cyngor yw trafod ceisiadau o'r fath ddwywaith y flwyddyn (ym mis Medi a mis Ebrill), gohiriwyd y drafodaeth arnynt.

Hysbyswyd y Cyngor y byddai Cynllun GwyrddNi Pen Llŷn yn cynnal noson ar Nos Fawrth 28 Tachwedd yn Neuadd Sarn Meillteyrn i rannu'r datblygiadau diweddaraf, a bwriadai'r Cynghorydd Jaci Jones ein cynrychioli yno.

**6) <u>Mynwent yr Eglwys Newydd</u>**

Yn dilyn adolygiad trwyadl o gofnodion y fynwent gan y Cynghorydd Nesta Williams cytunwyd i newid rheolau a symleiddio'r broses o dalu am gladdedigaethau. Cytunwyd i hynny, ac i hysbysu'r ymgymerwyr lleol o'r drefn newydd. Pasiwyd hefyd fod gofyn adnewyddu'r map o'r fynwent. Diolchwyd i'r Cynghorydd am yr holl waith gwerthfawr y bu'n ei wneud yn hyn o beth.

**7) <u>Hyfforddiant diffibriliwr</u>**

Cytunwyd i holi ynghylch trefnu hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r diffibriliwr ym mhentref Aberdaron.

**8) <u>Bolardiau ac arwyddion hysbysebu ym mhentref Aberdaron</u>**

Nodwyd ei bod wedi dod yn arfer gosod bolardiau ac arwyddion hysbysebu am gyfnodau maith yng nghanol pentref Aberdaron, a phenderfynwyd gofyn am farn Cyngor Gwynedd am briodoldeb hynny.

**9) <u>Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch)</u>**

Cytunwyd â chais gan Gyfeillion Llŷn (sy'n rhan o Brosiect 'Perthyn' Llywodraeth Cymru) i ddynodi ardal y Cyngor yn un lle gellir ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth ystyried polisïau cynllunio, fel a ganlyn:

> *Ar sail tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg mae Cyngor Cymuned Aberdaron wedi dynodi'r ward yn 'Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch)' er mwyn sefydlogi a chryfhau'r Gymraeg.*

**10) <u>Cytundeb Cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol</u>**

Bu trafodaeth ar ddrafft Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Gwynedd. Roedd gan aelodau gryn wrthwynebiad i Gyfarwyddyd Erthygl 4 y Cynllun, ond wedi ymchwilio ymhellach i'r ddogfen ddrafft gwelwyd mai amserlen gweithredu'r camau a'r dull o gyfrannu ato oedd dan sylw.

**11) <u>Cynllunio</u>**

Nid oedd gwrthwynebiad i gynllun newidiadau mewnol ac allanol i Dŷ'r Ysgol, Aberdaron, nac i'r cais am ymestyn ac adnewyddu ardaloedd ymolchi, toiledau a golchdy presennol Maes Gwersylla Adfent, Glan yr Afon, Anelog, cyn belled â bod y newidiadau yn cyd-fynd â'r niferoedd a ganiateir yn y maes, ac na ragwelir unrhyw broblemau carthffosiaeth.

**12) <u>Ariannol</u>**

Derbyniwyd bil gan gwmni Donald Insall am waith yn ymwneud â'r Eglwys Newydd, ond wedi gyrru at y cwmni i holi yn ei gylch rydym yn dal i ddisgwyl eglurhad pellach.

**Taliadau**

| | |
|---|---|
| Harvey Bloor | £480 |
| Cyfraniad mynwentydd a'r Eglwys | £600 |
| Cyfraniad Capel Nebo | £200 |
| Neuadd y Rhiw (mis Medi) | £20 |
| Nesta Roberts (CCTV) | £12.56 |
| Costau banc HSBC | £5.80 |

**9) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**

a) Mae'r llwybr heibio i fferm Carreg tua'r maes parcio mewn cyflwr drwg. Er ei bod yn debyg mai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol sydd yn berchen arno, penderfynwyd gofyn am farn Cyngor Gwynedd yn gyntaf.

b) Adroddwyd fod Mr. John Jones, Cyndyn wedi trwsio giatiau'r Eglwys Newydd yn rhad ac am ddim wedi iddynt gael eu sigo'n ddiweddar. Cytunwyd i ysgrifennu llythyr ato i ddiolch iddo.

c) Mae'r trac o Gwern Saer i Dan Muriau yn cau efo mieri, ac mae angen gyrru at Gyngor Gwynedd yn ei gylch.

ch) Mae coed o flaen Tŷ Cernyw, y Rhiw yn berygl ac angen eu torri. Penderfynwyd hysbysu Gyngor Gwynedd.

d) Gofynnwyd i  gofyn i Gyngor Gwynedd eto a oes modd rhoi arwyddion yn y Rhiw i reoli cyflymder gyrwyr moduron gan fod goryrru'n digwydd yno'n gyson.

dd) Sylwyd fod Dŵr Cymru, ar brydiau, yn gwneud cryn lanast wrth drwsio pibelli a chodi'r lôn. Gofynnwyd i ni holi Cyngor Gwynedd beth yw'r drefn pan fydd cryn ddifrod yn cael ei wneud ganddynt.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn Neuadd y Rhiw ar nos Lun, Rhagfyr 4 am 7.30 yr hwyr.**

[Fe'i cynhelir wythnos yn gynt na'r arfer oherwydd fod noson o Ganu Carolau er budd yr Eglwys Newydd wedi ei threfnu ar Ragfyr 11].